# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020:

## Adroddiad Blynyddol 2018 – Crynodeb

# 1. Trosolwg

**Rhaglen fuddsoddi 7 mlynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ('UE') trwy Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ('EAFRD') yw Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) 2014-2020.** Cafodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru ei mabwysiadu ar 26 Mai 2015 ac mae wedi'i newid ddwywaith, ym mis Mawrth 2019 yn fwyaf diweddar.

Mae'r Rhaglen Gymru gyfan hon yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau sydd â'r bwriad o wella cynaliadwyedd a chadernid amgylchedd naturiol, sector ar y tir, busnesau bwyd a chymunedau gwledig Cymru.

Cytunwyd ar gyllideb o hyd at €977 miliwn ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae hyn yn cynnwys rhyw €652 miliwn o gyllid yr UE a €326 miliwn o arian Llywodraeth Cymru ei hun.

Cyflwynir mwyafrif y gweithgareddau a gefnogir trwy'r Rhaglen ar ffurf 'cynlluniau' y gellir eu grwpio'n fras fel a ganlyn:

| | Cyllideb yr UE | Cyfanswm y Gyllideb | Gwariant yr UE | Cyfanswm y Gwariant |
|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol (gan gynnwys cymorth Cyswllt Ffermio)** | € 172.89 | € 300.01 | € 23.15 | € 36.57 |
| **Cynlluniau Buddsoddi (fel y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy)** | € 114.18 | € 177.27 | € 30.58 | € 46.42 |
| **Cynlluniau Amaeth-Amgylchedd-Hinsawdd (Glastir)** | € 281.93 | € 357.46 | € 142.67 | € 188.82 |
| **Cynlluniau Datblygu Lleol (gan gynnwys LEADER)** | € 56.57 | € 93.59 | € 13.41 | € 20.21 |
| **Gweithgareddau Eraill (fel Rhwydwaith Gwledig Cymru)** | € 26.02 | € 49.10 | € 5.66 | € 10.68 |
| **Cyfanswm ar gael dan y Rhaglen** | **€ 651.59** | **€ 977.42** | **€ 215.47** | **€ 302.70** |

Dyrennir cyllideb i bob cynllun a gyflwynir yn y Rhaglen Datblygu Gwledig. Pennir targedau ar gyfer yr hyn y disgwylir ei gyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r targedau hyn drwy gydol y flwyddyn. Nodir cynnydd tuag at y targedau yn yr adroddiad blynyddol a gaiff ei anfon at y Comisiwn Ewropeaidd (CE). Mae'r gwaith monitro hwn yn sicrhau y caiff yr arian ei wario yn y modd a fwriadwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae copi o'r adroddiadau hyn ar gael yma.

# 2. Gwerthuso

**Mae gwerthuso'n rhan allweddol o'r Rhaglen er mwyn helpu i asesu effeithiolrwydd y Rhaglen a nodi meysydd y gellir eu gwella. Mae nifer o ganllawiau wedi'u cyhoeddi i ategu'r gwaith hwn.**

Ddechrau 2018, cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr astudiaeth ddichonoldeb Amaeth-yswiriant. Gellir dod o hyd i gopi **yma.**


Ymhellach, yn ystod 2019 comisiynodd Llywodraeth Cymru werthuswr allanol i adolygu cynnydd y Rhaglen Datblygu Gwledig yn erbyn nifer penodol o gwestiynau gwerthuso cyffredin ledled Ewrop. Mae'r cwestiynau cyffredin hyn yn ei gwneud yn bosibl i adolygu cynnydd Rhaglenni Datblygu Gwledig ar sail Ewropeaidd. Cynhaliwyd y gwaith hwn gan gonsortiwm dan arweiniad AGRA CEAS gyda chymorth gan ADAS UK a Wavehill. Ar ôl iddo gael ei gwblhau, bydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru ynghyd ag Adroddiad Blynyddol terfynol 2018.

# 3. Cynnydd y Rhaglen

**Ers diwedd 2015 talwyd cyfanswm o €303 miliwn dan y Rhaglen, a thalwyd €140 miliwn o hyn yn ystod 2018 yn unig. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid (€189 miliwn) a dalwyd yn ymwneud â gweithgareddau ar y tir (amaeth-amgylcheddol / coedwigaeth). Mae €215 miliwn o'r cyfanswm a dalwyd ers dechrau'r rhaglen wedi dod o gronfeydd Ewropeaidd, ac mae €119.50 miliwn yn dod o gyllid trosglwyddo Colofn I.**

Erbyn diwedd 2018, mae rhai o'r cyflawniadau allweddol a gyflwynwyd trwy'r Rhaglen yn cynnwys:

- cyfanswm o 10,079 o gyfranogwyr wedi cael hyfforddiant;
- 1,919 o fuddiolwyr wedi cael cyngor arbenigol;
- creu bron i 1,572 hectar o goetir newydd;
- cyfanswm o 624 daliad wedi cael cymorth buddsoddi trwy'r Grant Cynnyrch Cynaliadwy a'r Grant Busnes Fferm;
- yn ystod 2018 cefnogwyd 5,279 o gontractau dan amaeth-amgylchedd-hinsawdd, ar gyfer ardal ffisegol o 826,911 hectar;
- cefnogwyd 4,221 hectar trwy Glastir Rheoli Coetir ac ail-stociwyd 498 hectar o goetir trwy Gynllun Glastir Adfer Coetir;
- ariannwyd 19 o brosiectau trwy Bartneriaeth Arloesi Ewrop.




Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau unigol a gyflawnir trwy'r Rhaglen ar gael isod a thrwy ddilyn y dolenni gwe ar gyfer pob rhaglen.

# 4. Cynlluniau Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol

**Cyflwynir contractau hyfforddiant a chyngor (y Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth a'r Cynllun Cynghori Busnesau Gwledig) trwy Cyswllt Ffermio. Mae Cyswllt Ffermio yn ganolog i gefnogi cyflawniad meysydd eraill o'r Rhaglen. Mae'n ffurfio'r prif ddull o gyflawni pecyn integredig o drosglwyddo gwybodaeth, cyngor a chymorth arloesi sy'n targedu cymunedau gwledig yng Nghymru.**

Cliciwch yma i weld enghraifft o sut y mae'r cymorth hyfforddiant sydd ar gael trwy Cyswllt Ffermio wedi helpu ffermwr ifanc ym Mhowys. Bwriad menter arall dan Cyswllt Ffermio, sef Mentro, yw helpu i gysylltu ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n dymuno camu'n ôl o'r diwydiant â phobl newydd sy'n chwilio am ffordd i mewn i fyd ffermio. Mae enghraifft o gytundeb menter masnachu ar y cyd yng Ngorllewin Cymru i'w gweld yma. Mae Cyswllt Ffermio yn cydnabod y gall treulio amser yn ymweld â busnesau eraill fod yn ffordd werthfawr o ddarganfod dulliau gwell o weithio, gweld arferion gorau ar waith a dod â syniadau newydd adref. Mae enghraifft o ymweliad grŵp yn cynnwys ymweliad ag Ynys Môn a Llŷn.

Cefnogir gwasanaethau cynghori i gynorthwyo cyflawniad Glastir hefyd, ynghyd â gweithgareddau eraill y Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau â chymorth grant ar gyfer mentrau sectoraidd dan arweiniad diwydiant sy'n gweithredu o'r gwaelod i fyny ac sy'n targedu amaethyddiaeth, coedwigaeth, bwyd, BBaCh gwledig eraill a rheolwyr tir.

EIP Cymru yw Partneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer Cynhyrchiant a Chynaliadwyedd Amaethyddol, a'i nod yw dod ag amrywiaeth o bobl a sefydliadau at ei gilydd i ddatblygu atebion arloesol, a fydd yn fuddiol i'r diwydiant ehangach yng Nghymru a'r UE.  Mae EIP yn ddull newydd o gefnogi datblygiad ymchwil ac arloesi ym maes amaethyddiaeth a choetiroedd yng Nghymru. Lansiwyd EIP yng Nghymru ym mis Ionawr 2016. Cafodd ceisiadau eu gwahodd gan Grwpiau â diddordeb mewn datrys problemau – a bydd ceisiadau o'r fath yn parhau i gael eu gwahodd yn y dyfodol. Ym mis Awst 2017, dyfarnwyd contract i Menter a Busnes ar gyfer rhedeg rhaglen EIP Cymru sy'n cynnwys rheoli a hwyluso pob cam, o ymholiadau hyd at ddyfarnu contractau prosiect a rhoi'r prosiect llwyddiannus ar waith.  Cymeradwywyd naw o brosiectau EIP yn 2018, gan ddod â'r cyfanswm i 19. Gellir dod o hyd i'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo ar wefan Cyswllt Ffermio.

Mae'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio ('C&SCD') yn cefnogi cydweithio, a'i fwriad yw gwneud i bethau newydd ddigwydd. Nod y cynllun yw arwain at newid gweddnewidiol, gan gefnogi datblygiad cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd yn y sectorau amaethyddiaeth, coedwigaeth a bwyd. Hyd yn hyn, mae pump o gyfnodau ymgeisio ar gyfer y Cynllun wedi arwain at gefnogi 33 o ymgyrchoedd cydweithio.  Cynigir cymorth ariannol trwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy ('SMS') i helpu i gychwyn a hwyluso prosiectau cydweithredol newydd ar raddfa tirwedd, gan gydlynu camau a chyfraniadau gan sawl parti er mwyn esgor ar fuddion parhaus ar draws ein cymunedau. Mae'n cefnogi amrywiaeth o weithgareddau i wella'r modd y caiff adnoddau naturiol eu rheoli ac, wrth wneud hynny, mae'n cyfrannu at lesiant cymunedau gwledig. Enghraifft o hyn yw Partneriaeth Llysgenhadon Mynyddoedd Duon. Mae pedwar o gyfnodau ymgeisio wedi cael eu cynnal ar gyfer y Cynllun hwn, gan arwain at gymeradwyo 10 o brosiectau. I gefnogi cyflawniad y Cynllun, mae gwasanaeth cymorth y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn rhoi hwylusydd i grwpiau cymwys. Gall yr hwylusydd hwn roi cymorth i grwpiau wrth ddatblygu'u syniadau a chyflwyno'u Datganiad o Ddiddordeb. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaeth cymorth yma.

Cynhaliwyd dau gyfnod ar gyfer derbyn ceisiadau cychwynnol yn ymwneud â'r cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth, gan arwain at roi cyllid i ddau o brosiectau. Mae'r cynllun hwn yn rhoi cymorth ariannol i annog plannu er mwyn creu coetiroedd llydanddail a chonwydd, fel y gellir gwella'r modd y rheolir adnoddau naturiol a chyfrannu at lesiant cymunedau gwledig yng Nghymru.

Mae nifer o gynlluniau'n ymwneud â Thwristiaeth ar gael trwy'r Rhaglen. Dan elfen 'cydweithredu' y rhaglen, caiff y Cynllun Rhwydwaith Twristiaeth a Chymorth Marchnata ei gyflawni gan Croeso Cymru. Cafodd ei lansio yn 2017, a phrif nod y Cynllun yw gwella proffidioldeb a chadernid y BBaCh unigol sy'n rhan ohono. Mae'r cynllun yn cynnwys dau o brosiectau ar wahân; y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (RTEF) a'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (TPIF). Caiff y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol ei hanelu at ddatblygu rhanbarthol tra caiff y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth ei hanelu at weithio gyda phartneriaethau a rhwydweithiau yn y sector preifat i ddatblygu cynhyrchion twristiaeth arloesol newydd. Caiff 21 o brosiectau cymeradwy eu cefnogi trwy gyfrwng y prosiectau hyn. Mae Croeso Cymru wedi rhyddhau ffilm fer i ddangos sut y mae busnesau twristiaeth wedi cael cymorth gan y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol, a cheir ffilm fer arall ar gyfer prosiectau a gafodd gymorth gan y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth.

# 5. Cynlluniau Buddsoddi

Mae'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy ('SPG') yn gronfa buddsoddi cyfalaf i helpu i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol ffermydd. Mae grantiau'n cynrychioli cyfraniad o hyd at 40%. Erbyn diwedd 2018 roedd cyfanswm o 72 o geisiadau wedi'u cymeradwyo. Mae'r Grant Busnes i Ffermydd ('FBG') yn darparu cymorth ariannol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn offer a pheiriannau y nodwyd ymlaen llaw eu bod yn cynnig buddion clir a meintiol i fentrau fferm. I fod yn gymwys i ymgeisio am y Cynllun, rhaid i'r busnes fferm fod wedi mynychu digwyddiad 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' gan Cyswllt Ffermio. Erbyn diwedd 2018 roedd dros 2,550 o geisiadau wedi'u cymeradwyo, a hynny yn ystod pump o rowndiau Grant Busnes i Ffermydd.

Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren ('TBIS') yn darparu cyllid ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth at goedwigoedd trwy alluogi gweithgareddau rheoli coetir, cynaeafu pren a/neu brosesu pren. Erbyn diwedd 2018, roedd tri o gyfnodau ymgeisio wedi'u cynnal ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren, a arweiniodd at gymeradwyo 30 o brosiectau.

Bwriad y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd ('FBIS') yw helpu prif gynhyrchwyr cynhyrchion amaethyddol yng Nghymru i ychwanegu gwerth at eu cynnyrch. Mae'r cynllun yn darparu cymorth i'r busnesau hynny sy'n cynnal gweithgareddau prosesu cam un a/neu dau. Cymeradwywyd cyfanswm o 66 o geisiadau ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd erbyn diwedd 2018. Gan ategu ymyriadau eraill yn ymwneud â bwyd a diod yn y Rhaglen, mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd ('RBISF') yn gynllun buddsoddiadau cyfalaf ar gyfer cynorthwyo prosiectau sy'n cynnig buddion clir a meintiol i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn cynnig cymorth i weithgareddau gweithgynhyrchu neu brosesu bwyd a diod nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd. Cynhaliwyd dau gyfnod ymgeisio dan y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd, a arweiniodd at gymeradwyo 20 o brosiectau erbyn diwedd 2018.

Mae'r Gronfa Fusnes Micro Bychan ('MSBF'), a gyflwynir gan Croeso Cymru, ar gael i fusnesau micro-bychan a chanddynt lai na 50 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. Cronfa fuddsoddi yw'r Gronfa Fusnes Micro Bychan sy'n targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y sector twristiaeth yng Nghymru. Gellir defnyddio'r arian i uwchraddio neu greu cynnyrch newydd o ansawdd da. Hyd yn hyn, mae cyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer 27 o brosiectau.





# 6. Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol

**Mae GLASTIR yn deulu o gynlluniau cysylltiedig yng Nghymru i gefnogi prosesau rheoli tir cynaliadwy. Bwriad Glastir yw cyflawni canlyniadau ar lefel fferm, coedwig a thirwedd mewn modd cost effeithiol. Mae'n rhoi tâl am gyflawni nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol y cânt eu hanelu at daclo newid hinsawdd, gwella dulliau rheoli dŵr, a chynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth. Caiff Glastir ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cynorthwyo i gyflawni rhai agweddau ar y cynllun.**

Mae Cynllun **Glastir Uwch** yn rhoi cymorth ariannol wedi'i dargedu i ffermwyr a rheolwyr tir i gyflawni'r amcanion hyn, gan gyflawni gwelliannau amgylcheddol ar gyfer amrywiaeth o amcanion, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau, pridd a dŵr. Mae'r cynllun bellach ar gau i gontractau newydd. Dan **Gynllun Grantiau Bach Glastir**, gall rheolwyr tir a busnesau ffermio elwa ar hyd at £7,500 o gyllid ar gyfer gwaith cyfalaf dan dair thema: Carbon, Dŵr, a Thirweddau a Phryfed Peillio. Cynhaliwyd pedwar cyfnod ymgeisio hyd yn hyn, gan arwain at gymeradwyo mwy na 5,600 o weithrediadau.

Mae **Creu Coetir Glastir** yn cefnogi rheolwyr tir sy'n dymuno creu coetir newydd a/neu reoli coetiroedd presennol. Mae cynllun **Adfer Coetir Glastir** wedi'i ddatblygu i alluogi coetiroedd sydd wedi'u heintio â Phytophthora ramorum i gael eu hailblannu er mwyn helpu i arafu lledaeniad yr afiechyd, gan roi'r cyfle i gyflwyno rhywogaethau coed amrywiol i gynyddu'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd a phlâu/afiechydon. Yn ychwanegol at gymorth ar gyfer creu a rheoli coetir, mae **Cynllun Adfer Glastir** yn rhoi cymorth tuag at ailstocio coetiroedd llarwydd y mae'r pathogen ffwng Phytophthora ramorum wedi'u heintio neu'u bygwth. Caiff y **Cynllun Monitro Coedwigoedd a Rheoli Risg** ei gyflawni gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gefnogi gwaith monitro a gwaith lliniaru ac atal canlyniadau niweidiol o du achosion presennol o glefydau neu blâu mewn coed a choedwigoedd. Gellir gweld rhestr o gyfnodau a dyddiadau ymgeisio Glastir yma.



# 7. Cynlluniau Datblygu Lleol

**Mae LEADER yn fath o Ddatblygiad Lleol dan Arweiniad y Gymuned ('CLLD'). Ceir 18 Grŵp Gweithredu Lleol ('LAG') yng Nghymru sef y wardiau cymwys yn y 21 ardal Awdurdod Lleol. Mae pob Grŵp Gweithredu Lleol wedi datblygu Strategaeth Datblygu Lleol ('LDS') sy'n pennu'r cyfleoedd a'r heriau yn eu hardal ac yn esbonio pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd a rheoli rhai o'r heriau.**

I gael gwybodaeth am eich Grwpiau Gweithredu Lleol ac i gael copïau o'r Strategaeth Datblygu Lleol ategol ar gyfer pob ardal, ewch i dudalennau Rhwydwaith Gwledig Cymru ('WRN'). Gallwch hefyd ddod o hyd i enghreifftiau o brosiectau LEADER trwy ddefnyddio'r map rhyngweithiol ar we-dudalen Rhwydwaith Gwledig Cymru, ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer pob Grŵp Gweithredu Lleol yng Nghymru.

Mae'r grantiau a gynigir trwy'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ('RCDF') yn darparu cyllid buddsoddi ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn helpu i ddiwallu anghenion lleol a chryfhau cymunedau er mwyn iddynt allu tyfu a ffynnu. Cafwyd saith cyfnod cyllido a arweiniodd at gymeradwyo 142 o geisiadau. Nid oes mwy o gyfnodau ymgeisio wedi'u trefnu ar gyfer y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig.

Caiff y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth ('TAIS') ei gyflawni gan Croeso Cymru, gan ategu'r cymorth twristiaeth arall a gynigir trwy'r Rhaglen. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ar gyfer buddsoddiad ar raddfa fach i wella arwyddion safleoedd twristiaeth, adeiladu a moderneiddio canolfannau gwybodaeth twristiaeth a darparu gwybodaeth ac arweiniad i ymwelwyr. Caiff ei roi ar waith trwy gyfrwng galwad flynyddol i ddatblygu seilwaith twristiaeth hygyrch ar raddfa fach mewn cyrchfannau. Rhoddwyd dau gyfnod ymgeisio ar waith ar gyfer y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth a chefnogwyd 47 o brosiectau.



# 8. Wales Rural Network

**Rhan hanfodol o'r Rhaglen yw Rhwydwaith Gwledig Cymru ('WRN'). Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cefnogi rhwydweithio ac ymgysylltu ymhlith rhanddeiliaid, ynghyd â rhannu gwybodaeth, arferion gorau a phrofiad ar draws Cymru, y DU ac Ewrop. Mae'r Rhwydwaith yn cyfrannu'n helaeth at y Rhaglen trwy ychwanegu gwerth at y cyllid sydd ar gael, gan hyrwyddo gweithgareddau a ariennir trwy gyfrwng y Rhaglen.**

Mae rôl y Rhwydwaith wedi esblygu dros oes y Rhaglen i roi mwy o bwyslais ar hyrwyddo cyllid a gafwyd a rhannu arferion gorau. Lansiwyd gwefan newydd tua diwedd 2018 gyda map rhyngweithiol yn dangos prosiectau LEADER, gan dynnu sylw at lwyddiannau'r Rhaglen a'r buddion i drigolion ardaloedd gwledig Cymru. Ymhellach, mae'r cyfryngau cymdeithasol â rhan bwysig yn strategaeth gyfathrebu'r Rhaglen, a cheir presenoldeb ar Facebook a Twitter:

https://twitter.com/WalesRuralNet a https://www.facebook.com/walesruralnet

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am waith Rhwydwaith Gwledig Cymru ar:

https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy






# 9. Rhagor o Wybodaeth

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (WGRC-RDP) 2014-2020 ar:

https://llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig

**European Agricultural Fund for Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government